

Ken Skates AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

5 Gorffennaf 2017

Annwyl Ken,

Teithio gan Ddysgwyr yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei flaenraglen waith yn ddiweddar. Mae aelodau'r Pwyllgor wedi nodi diddordeb mewn rhoi sylw i sut y bydd teithio gan ddysgwyr yng Nghymru yn datblygu, yn enwedig materion sy'n ymwneud â chydymffurfiad awdurdodau lleol i gynnal asesiadau ynglŷn â llwybrau cerdded peryglus sy'n arwain at fannau codi dysgwyr.

Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth sy'n awgrymu y gall gwahaniaethau fod yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn dehongli deddfwriaeth a chanllawiau o ran teithio gan ddysgwyr yn y modd mae llwybrau peryglus yn cael eu hasesu, yn enwedig mewn perthynas â llwybrau cerdded o'r cartref i'r manau lle mae'r cerbydau yn codi dysgwyr.

Mae Adran 2 o *Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008* yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i asesu anghenion teithio dysgwyr o dan 19 oed ac mae'r Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr yn rhestru nifer o bethau sydd hefyd yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw iddynt wrth asesu anghenion teithio dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys 'natur y llwybr y disgwylir i'r dysgwr ei gymryd rhwng y cartref a'r lleoliadau lle y cynhelir yr addysg neu'r hyfforddiant ar eu cyfer.

Yn y Pedwerydd Cynulliad, hysbysodd y cyn Weinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y Cynulliad:

“Where travel arrangements made by local authorities require children to walk to and from pick up points for learner transport, they must ensure that both the walked route and the learner transport itself are suitable; such transport



arrangements must be safe, not take unreasonable time and not cause unreasonable stress.”¹

Nododd y Gweinidog yn ei llythyr at yr Aelodau ei bod wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol i'w hatgoffa o'u dyletswyddau a cheisio sicrwydd eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau.


Byddai o gymorth i'r Pwyllgor yn ei waith pe gallech roi gwybodaeth i ni am y materion a ganlyn:

- Statws pob awdurdod lleol o ran cydymffurfio â'u dyletswyddau i ddysgwyr;
- Unrhyw ganlyniadau sydd wedi deillio o ohebiaeth y cyn Weinidog â phob awdurdod lleol; ac
- Os oes diffyg cydymffurfio mewn awdurdodau lleol yn dal i fod, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau. Ar y pwynt hwn, byddai gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag awdurdodau penodol yn cael ei chroesawu.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor hefyd wedi ysgrifennu heddiw at Gomisiynydd Plant Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yn gofyn am eu barn ar y mater hwn.

Edrychaf ymlaen yn fawr at glywed oddi wrthyich, ac rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu eich croesawu i'r Pwyllgor yn y dyfodol agos.

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Llythyr gan y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, [\(9 Hydref 2015\)](#)¹

